# Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD MAWRTH, 7 MAWRTH 2017**

**AT: HOLL AELODAU'R Y BWRDD GWEITHREDOL**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **BWRDD GWEITHREDOL** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN** AM **10.00 YB, AR DDYDD LLUN, 13EG MAWRTH, 2017** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Catherine Gadd** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224088** |
| **E-bost:** | **cegadd@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# Y BWRDD GWEITHREDOL

## AELODAETH: 10  AELOD

| Y Cynghorydd | Portffolio: |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Emlyn Dole** | **Yr Arweinydd (Plaid Cymru)**<br>Arweinyddiaeth a Strategaeth Gorfforaethol; Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol; Cynrychioli'r Cyngor - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Eiriolwr Gwleidyddol y Cyngor; Penodi'r Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol; Penderfynu ar Bortffolios yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol; Cyswllt â'r Prif Weithredwr |
| **Y Cynghorydd David Jenkins** | **Dirprwy Arweinydd  - Adnoddau (Plaid Cymru)**<br>Cyllid a'r Gyllideb; TGCh; Rheoli Eiddo / Asedau; Caffael;  Budd-daliadau Tai; Refeniw; Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog a Chadeirio'r Bwrdd Gweithredol yn absenoldeb yr Arweinydd. |
| **Y Cynghorydd Pam Palmer** | **Dirprwy Arweinydd (Annibynnol)**<br>Rheolwr Busnes y Cyngor; Hyrwyddwr Cymunedol; Ffocws Cwsmeriaid a Pholisi; Cyswllt â'r Heddlu; Diogelwch Cymunedol; Cynllunio Cymunedol Cyfiawnder Cymdeithasol/Trosedd ac Anhrefn; Hyrwyddwr Gwrth-dlodi; Cynaliadwyedd; Bioamrywiaeth; Llysgennad Ieuenctid; Materion Gwledig a Chadeirio'r Bwrdd Gweithredol yn absenoldeb yr Arweinydd. |
| **Y Cynghorydd Hazel Evans** | **Gwasanaethau Technegol (Plaid Cymru)**<br>Sbwriel; Glanhau Strydoedd; Gwasanaethau Cludiant; Cynnal a Chadw Tiroedd; Gwasanaethau Adeiladau;  Gwasanaethau Arlwyo; Gwasanaethau Gofalwyr Adeiladau; Glanhau Adeiladau; Cynlluniau Argyfwng; Llifogydd. |
| **Y Cynghorydd Meryl Gravell** | **Adfywio a Hamdden (Annibynnol)**<br>Datblygu Economaidd; Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru; Datblygu Cymunedol; Chwaraeon; Canolfannau Hamdden; Amgueddfeydd; Llyfrgelloedd; Parc Gwledig |
| **Y Cynghorydd Gareth Jones** | **Addysg a Phlant (Plaid Cymru)**<br>Ysgolion; Gwasanaethau Plant; Anghenion Addysgol Arbennig; Diogelu; Cartrefi Seibiant; Gwasanaeth Gwella Ysgolion Integredig Rhanbarthol; Addysg i Oedolion a Dysgu Cymunedol;  Gwasanaethau Ieuenctid; yr Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc; Llysgennad yr Eisteddfod |
| **Y Cynghorydd Linda Evans** | **Tai (Plaid Cymru)**<br>Tai (Cyhoeddus a Phreifat); Cydraddoldeb; Materion Pobol Hŷn |
| **Y Cynghorydd Jim Jones** | **Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd (Annibynnol)**<br>Gorfodi Materion Amgylcheddol; Sbwriel; Gwastraff Di-drwydded; Baw Cŵn; Gwasanaethau Parcio; Safonau Masnach; Iechyd yr Amgylchedd. |
| **Y Cynghorydd Mair Stephens** | **Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio (Annibynnol)**<br>Adnoddau Dynol; Hyfforddiant; Compact Simpson; Cyllidebu ar Sail Blaenoriaeth; Y Tîm Effeithlonrwydd Corfforaethol; Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg; Llysgennad Cynghorau Tref a Chymuned. |
| **Y Cynghorydd Jane Tremlett** | **Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (Annibynnol)**<br>Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion; Gofal Preswyl; Gofal Cartref; Anableddau Dysgu; Iechyd Meddwl;Cysylltu/ Cydweithredu/Integreiddio â'r GIG; Hyrwyddwr Gofalwyr; Llysgennad Anabledd; Hyrwyddwr Gofal Dementia; Hyrwyddwr 50+ a Chynrychiolydd Grwp Llywio |

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** | |
| 2. | **DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL** | |
| 3. | **LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 27AIN CHWEFROR 2017** | 5 - 10 |
| 4. | **CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU** | |
| 5. | **CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD** | |
| 6. | **MAES 3G PARC WAUNDEW, CAERFYRDDIN** | 11 - 16 |
| 7. | **UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.** | |
| 8. | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**<br>NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIADAU SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATERION HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH. | |
| 9. | **CYMORTH ARIANNOL I YMDDIRIEDOLAETH ADFYWIO TREFTADAETH CAMBRIAN/ BLAS LLANELLY** | 17 - 22 |
| 10. | **CONTRACT TRIN A GWAREDU GWASTRAFF - TREFNIADAU GWAHANOL YN Y DYFODOL** | 23 - 60 |
| 11. | **PROSIECT DENU PENTYWYN** | 61 - 68 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 27 Chwefror 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.M. Jenkins (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
M. Gravell, G.O. Jones, P.A. Palmer, L.M. Stephens and T.J. Jones

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James - Prif Weithredwr
C. Moore - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans - Cyfarwyddwr Addysg a Phlant Dros Dro
J. Morgan - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
R. Mullen - Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters - Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
L.R. Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
D. Hockenhull - Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
C. Gadd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 10.40 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr E. Dole, H.A.L. Evans, L.D. Evans a J. Tremlett.

Bu i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol gydymdeimlo â'r Cynghorydd H.A.L. Evans a'i theulu ar farwolaeth ei mam.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd dim buddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. COFNODION - 6 CHWEFROR 2017

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2017 yn gofnod cywir.**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Nid oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau. Fodd bynnag, roedd y Cynghorydd D.M. Cundy wedi gofyn am ganiatâd i ofyn cwestiwn mewn perthynas ag eitem rhif 8 ar yr agenda, yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 11.1.

## 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. DRAFFT CYNGOR SIR GAERFYRDDIN - AMCANION LLESIANT 2017/18

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi manylion am Amcanion Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin 2017/18.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus:-

- Pennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant
- Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny
- Cyhoeddi datganiad am Amcanion Llesiant
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch y cynnydd
- Cyhoeddi ein hymateb i argymhelliad a wneir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Yn ogystal, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella bob blwyddyn ac ar gyfer 2017/2018 cynigiwyd integreiddio Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod.

Pwysleisiodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau fod yr amcanion wedi cael eu datblygu yn dilyn ymgynghori â phreswylwyr. Roedd yr amcanion drafft hefyd wedi cael eu hystyried yn ystod cyfarfod craffu ar y cyd ac roedd sylwadau Aelodau wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

Mynegwyd pryder gan Aelodau'r Bwrdd fod dyblygu yn sgil datblygu targedau llesiant drwy wahanol ddeddfwriaeth a phrosiectau. Nodwyd bod yn rhaid rhoi ystyriaeth i'r amser a'r ymdrech sydd eu hangen i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR fod yr adroddiad drafft yn cael ei gymeradwyo.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL - CYNLLUN HENEIDDIO'N DDA SIR GAERFYRDDIN

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Adroddiad Blynyddol Sir Gaerfyrddin ar gyfer Cynllun Heneiddio'n Dda 2015/2016. Roedd yr adroddiad (sy'n ofynnol gan y Comisiynydd Pobl Hŷn) yn rhoi manylion am berfformiad yr Awdurdod o ran y blaenoriaethau canlynol:

- Cymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn;
- Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia;
- Atal Codymau;
- Cyfleoedd Cyflogaeth a Sgiliau Newydd;
- Unigrwydd a theimlo'n ynysig.

Mynegodd Aelodau'r Bwrdd bryderon fod rhai pobl oedrannus yn aros yn yr ysbyty yn hwy nag sydd ei angen a bod yn rhaid rhoi ystyriaeth i gyfuno cyllidebau ag iechyd, lle bo'n briodol, i roi sylw i faterion o'r fath. Nododd yr Aelodau fod angen rhoi mwy o bwyslais ar sut i gyflawni'r fath gynlluniau a blaenoriaethau a dysgu


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

drwy arferion da mewn ardaloedd eraill. Awgrymwyd y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wneud rhagor o ymchwil i arferion da.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cynllun Heneiddio'n Dda 2015/2016.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015/16 - GWEITHREDU O RAN Y GYMRAEG

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Adroddiad Blynyddol 2015/16 ar yr Iaith Gymraeg sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â threfniadau monitro Comisiynydd y Gymraeg. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y dangosyddion statudol a lleol sy'n mesur cydymffurfiaeth â'r Cynllun. Dywedwyd y byddai'r safonau yn disodli'r system bresennol o ran cynlluniau iaith Gymraeg. Roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ar 30 Medi, 2015, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r safonau erbyn 30 Mawrth, 2016.

Dywedodd yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol fod Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi nodi bod y Cyngor yn perfformio'n dda.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 11.1 gofynnodd y Cynghorydd D.M. Cundy faint o leoedd Cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ond sydd heb eu llenwi yn nalgylchoedd addysgol Cyngor Tref Llanelli a Chyngor Gwledig Llanelli ar hyn o bryd, mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, a sut y bydd angen inni ehangu'r ddarpariaeth i gyrraedd ein targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhoddodd yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant wybodaeth am nifer y lleoedd Cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a nifer y lleoedd gwag yn ardal Llanelli ar hyn o bryd. Nodwyd bod newidiadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Llanelli yn sgil uno Ysgol Copperworks ac Ysgol Maesllyn. Mewn perthynas â chyrraedd y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, eglurwyd bod y Cyngor yn aros am adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn dilyn ymgynghori ynghylch ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 9. MODEL BLAENORIAETHU AR GYFER GWELLIANNAU DIOGELWCH FFYRDD AC ISADEILEDD PRIFFYRDD

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad oedd yn amlinellu meini prawf diwygiedig ar gyfer asesu a blaenoriaethu ceisiadau am welliannau diogelwch ffyrdd ac isadeiledd priffyrdd. Ar 14 Tachwedd, 2011 roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo'r meini prawf presennol ar gyfer asesu, dewis a blaenoriaethu Gwelliannau Diogelwch Ffyrdd a Gwelliannau Troedffyrdd a ariannwyd o gyllideb cyfalaf y Cyngor. Roedd yr adroddiad wedi tynnu sylw at y ffaith fod y galw yn uchel ac ar hyn o bryd roedd 355 o geisiadau ar wahân am welliannau isadeiledd priffyrdd a diogelwch ffyrdd. Roedd y meini prawf diwygiedig yn cael eu cynnig i ystyried yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd a sicrhau bod prosiectau a chynlluniau sy'n gwella diogelwch ffyrdd mewn cymunedau yn cael eu blaenoriaethu. Yn ogystal, er mwyn hwyluso cyflawni mân welliannau mae'r adroddiad yn cynnig brigdorri'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer mân waith 10%.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r meini prawf ar gyfer asesu a blaenoriaethu ceisiadau am welliannau diogelwch ffyrdd ac isadeiledd priffyrdd.**

**10. Y TREFNIADAU PARTNERIAETH SYDD WEDI'I SEFYDLU YNG NGORLLEWIN CYMRU O DAN RAN 9 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 AC ASESIAD POBLOGAETH GORLLEWIN CYMRU.**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi gwybodaeth am ofynion statudol trefniadau partneriaeth o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Roedd y rhain yn cynnwys creu Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ar ôl troed Byrddau Iechyd Lleol. Roedd yn rhaid i'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a hyrwyddo sefydlu cronfeydd ar y cyd lle bo'n briodol i gefnogi integreiddio. O dan Ran 2 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) roedd yn ofynnol i bartneriaid statudol gyhoeddi Asesiad Poblogaeth sy'n nodi'r anghenion am ofal a chymorth yn y rhanbarth, y gofal a chymorth a ddarperir ar hyn o bryd a'r meysydd y mae angen eu gwella a'u datblygu. Mae'n rhaid cynnal Asesiad Poblogaeth yn ystod pob cylch etholiadol ac roedd yn rhaid cyhoeddi'r asesiad cyntaf erbyn 31 Mawrth 2017. Yn hyn o beth, roedd y partneriaid statudol a phartneriaid eraill yn rhanbarth Gorllewin Cymru wedi cydweithio i gynhyrchu Asesiad Poblogaeth cyntaf y rhanbarth, yr oedd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi cytuno arno ar 15 Rhagfyr 2016. Roedd y Côd Ymarfer statudol yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r partneriaid statudol gymeradwyo'r Asesiad cyn ei gyhoeddi.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

**10.1 nodi'r gofynion statudol sydd ar waith yng Ngorllewin Cymru o dan Ran 9 O Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r trefniadau partneriaeth i fodloni'r gofynion hyn;**

**10.2 cymeradwyo cynnwys Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru.**

**12. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**13. CWMNI TAI LLEOL SIR GAERFYRDDIN - YR ACHOS BUSNES**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 12 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi manylion am ganfyddiadau achos busnes y Cwmni Tai Lleol ac yn amlinellu'r camau nesaf ar gyfer sefydlu'r cwmni y bernir mai hwn oedd y dewis gorau i ychwanegu'n sylweddol at ddarparu tai fforddiadwy i'w gwerthu a'u gosod. Roedd Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy 2016-21, a gytunwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2016, yn ymrwymo i ddarparu 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**13.1 Cadarnhau bod yr achos busnes ar gyfer sefydlu'r Cwmni Tai Lleol yn opsiwn ymarferol ac y byddai'n ychwanegu'n sylweddol at gyflawni Ymrwymiad Tai Fforddiadwy y Cyngor o ran darparu rhagor o dai i'w gwerthu a'u gosod;**

**13.2 rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion sefydlu'r cwmni tai lleol, ei strwythurau llywodraethu a chynllun busnes manwl pum mlynedd o hyd;**

**13.3 awdurdodi swyddogion i gomisiynu cymorth allanol arbenigol wrth sefydlu'r cwmni tai lleol ac wrth ddatblygu'r strwythurau llywodraethu a'r cynllun busnes manwl, a hynny mewn perthynas â materion cyfreithiol, ariannol a thechnegol.**

**14. DATBLYGU ORIEL MYRDDIN - HEOL Y BRENIN, CAERFYRDDIN**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 12 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar y cynigion ar gyfer datblygu Oriel Myrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r argymhellion fel y nodir yn yr adroddiad er mwyn cefnogi datblygu Oriel Myrddin.**

______________________ ______________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Y BWRDD GWEITHREDOL
# 13 MAWRTH 2017

## Maes 3G Parc Waundew, Caerfyrddin

**YR ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

Argymhellir bod y Bwrdd Gweithredol yn ystyried cefnogi gosod maes 3G ym Mharc Waundew, fel rhan o brosiect cymunedol drwy gymeradwyo grant o £150k.

**RHESYMAU:**

Mae Parc Waundew yn un o ardaloedd mwyaf heriol Caerfyrddin o ran agweddau cymdeithasol ac economaidd, a byddai'r maes 3G newydd sy'n rhan o brosiect cymunedol o fudd i nifer fawr o grwpiau a sefydliadau lleol, gan ddarparu gwell cyfleusterau ar gyfer plant ac oedolion a'r rheiny ag anableddau.

**Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol** NADDO
**Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad** OES
**Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad NAC OES**

**YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:-**
**Cyng D.M. Jenkins (Adnoddau)**


| Y Gyfarwyddiaeth: | Swydd: | Rhifau ffôn: |
|---|---|---|
| Adnoddau | | |
| **Enw'r Cyfarwyddwr:** Chris Moore | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol | cmoore@sirgar.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** Chris Moore/Tracey Williams | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol / Cyfrifydd Cynorthwyol b | |

# EXECUTIVE SUMMARY
# Executive Board
# 13TH MARCH 2017

## 3G Pitch at Richmond Park, Carmarthen

**Background**
Carmarthen Town AFC are looking to replace their existing ground with a new 3G all-weather football pitch at Richmond Park, as part of a community project to help and support the more socially and economically challenged areas of Carmarthen. The total cost of this installation looks to be in the region of £560k with funding of £410k already been secured from:

- Football Association of Wales (FAW) £350k
- Grantscape £30k
- University of Wales Trinity St Davids (UWTSD) £30k

This leaves a shortfall of £150k, the club is trying to obtain alternative funding but are unable to secure any at present. Any additional costs above the £560k will be met by the club.

This installation needs to take place during the summer months of 2017 in order for the 3G pitch to be installed on time with the hope of contracts being signed during the first few weeks of April. If the implementation does not take place this summer, the £420k funding from FAW will be withdrawn.

The club's intention is to help create a wider community benefit by helping and supporting young people to reach their full potential and live fulfilled lives through increased use of their facilities and working in partnership with local groups and organisations including primary schools (one of which has a special needs unit), family centres, youth clubs and UWTSD, most of which either have inadequate or no outside facilities.

**Community Benefits**

- Schools - there are 2 schools situated within the area, one of which includes a special needs unit. This facility could be used:
  - Sports' days, enabling sports days for the whole school to be held on one day, encouraging parents involvement.
  - Provide a safe venue for physical education lessons, offering schools sport skills clubs including athletics and disabled sporting activities.
  - Allow parents and children to engage actively with each other, at least 100 parents have expressed an interest in increasing events with their children as part of the Parenting Engage activity (PEAS) on weekends.
  - Provide additional facilities for hard to reach pupils
  - Provide coaching for able and talented pupils who currently can not engage in academies due to cost and lack of transport facilities.
- Family Centres – use of both the 3G pitch for parents and children games, the Community Centre being an extension to their present facilities for the activities including Dads Group, Cookery, Well being and healthy eating, adult educational classes and parenting classes.

- University Trinity St Davids – have agreed to undertake a number of initiatives:
    - SKIP intervention and parental engagement to target parents of young children to promote FMS (Fundamental Movement Skills) to develop an understanding of how young children learn their physical skills, includes holding workshops, intervention sessions, coffee mornings with parents, after school sessions and providing parents the necessary equipment to participate in physical activity at home.
    - CIRCUS skills – hold training sessions with local school teachers and coaches on CIRCUS skills which are inclusive activities to motivate young people to try and succeed with new physical activity challenges.
    - Healthy eating programme, engaging with local schools and family centres, in particular parents.
    - Physical activity programmes devised to measure and assess a wide range of health and fitness factors within family centres and schools with a concentration on parents and children.
- Dr M's Youth Club – allow use for their activity days, pamper days and charity fundraising events
- Disability Sport Wales Officer for Carmarthenshire – the pitch is suitable for disabled sport, it has accessible changing rooms and a community learning centre. The pitch would be used for training and matches by the local disability team, Elfed United, used for hosting West Wales Disability League tournaments and hosting Welsh Colleges Pan disability football tournaments.
- CCC – offer summer play schemes and after school clubs for disabled children and holiday activity camps.
- Menter Gorllewin Sir Gar – a Welsh language development project operating up to 20 miles from Carmarthen, using the facility to hold various activities for nursery age children and football skills groups, netball club and rugby sessions for children aged 4-7 years

**Carmarthen Town AFC**

- The club will offer free 3G usage for all activities undertaken by club partners, including free use of the on-site Community Centre, anticipated an average of 20 hours per week
- Will initiate an Over 50 league
- Will identify the need for any additional activity e.g. for the blind, youth clubs etc
- Will introduce senior and junior ladies/girls teams
- Will despatch 200 free tickets to Family Centres and Schools within the area in respect of the Club's Senior Football matches
- Will initially employ two posts

The club has received great support / responses from local groups and organisations, explaining how much this facility would benefit them, including from the Headteacher of Myrddin Primary School, Headteacher of Richmond Park Primary School, Town Councillor and Chairman of the Town's Family Centres. A letter of support has also been received from the Police and Crime Commissioner Dyfed Powys Police, giving his assurance that his Community officers will work closely with the Club.

It is recommended that the Executive Board considers supporting the implementation of a 3G pitch at Richmond Park, part of a community project by approving a grant of £150k.

| DETAILED REPORT ATTACHED? | No |
|---|---|

# INTEGRATION

| |
|---|
| **I confirm that the Community Strategy Integration Tool has**<br>Not been used to appraise the subject of this report as it is not appropriate to do so.<br>**Signed Chris Moore, Director of Corporate Services** |

# IMPLICATIONS

| |
|---|
| **I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**<br>Signed **Chris Moore, Director of Corporate Services** |

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **YES** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

**1. Finance**

As stated in the report there is significant community benefit on an ongoing basis from the contribution of £150K

Funding can be provided from within the 2016/17 budget resource.

## CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

Signed **Chris Moore, Director of Corporate Services**

**1.Local Member(s): N/A**

**2.Community / Town Council: N/A**

**3.Relevant Partners: N/A**

**4.Staff Side Representatives and other Organisations: N/A**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THERE ARE NONE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol